



## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd yn Aberhonddu, 24 Mehefin 2017

### **2017.16 Addoli agoriadol a chroeso:**

Mae'r gerdd *Pa Beth yw Dyn?* gan Waldo Williams wedi'i darllen yn y Gymraeg ynghyd â chyfieithiad Saesneg Tony Conran ohoni yn ystod ein hamser addoli.

Rydym wedi croesawu 46 o Gyfeillion heddiw yn ôl y daflen bresenoldeb.

Ein henaduriaid heddiw yw Frank Brown a Carolyn Sansom

Ein cyfieithydd heddiw yw Steffan Wiliam.

Enwyd y Cyfeillion canlynol gan eu cyfarfodydd i fod yn bresennol:

**Cyfarfod Ardal Gogledd Cymru** Rhian Parry (yn adrodd), Frank Brown, Frances Voelcker,

**Cyfarfod Ardal Canolbarth Cymru** Gethin Evans

**Cyfarfod Ardal De Cymru** Anne Hosking, Joan Darbyshire

**Cyfarfod Ardal Gororau'r De** Jeff Beatty

**2017.17 *Calon a The Friend*:** Mae Sheila Cunnington wedi cytuno i ysgrifennu am y Cyfarfod hwn i Calon a Siw Wood i *The Friend*.

### **2017.18 Cyfarchion o Gyfarfod Blynyddol yr Iseldiroedd:**

Rydym yn falch o dderbyn cyfarchion Cyfeillgar gan Gyfarfod Blynyddol yr Iseldiroedd drwy ei glerc Marlies Tjallingii a gyflwynwyd i ni gan Maryse Newnham.

### **2017.19 Yr Eisteddfod Genedlaethol, Sioe Frenhinol Cymru a Chynulliad y Cyfarfod Blynyddol:**

(i) Mae Gwyneth Hewitson yn cydlynu ein presenoldeb yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Modern, Ynys Môn, 5 tan 12 Awst a Jeff Beatty yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanellwedd, 24 tan 27 Gorffennaf. Mae Jeff Beatty wedi mynychu cyfarfodydd paratoadol gan ddweud wrthon ni y bydd y Cyfarfod Addoli dyddiol eleni'n fwy amlwg. Bydd nodyn atgoffa a chanllawiau am sut i wirfoddoli yn cael eu cylchredeg i bob cwrdd lleol. Gall Cyfeillion hefyd lofnodi'r rota wirfoddoli yn y Cyfarfod hwn. Mae ein swyddog gweinyddol yn sicrhau bod adnoddau ar gael ar gyfer y digwyddiadau hyn.

(ii) Cynhelir darlith y Crynwyr yn yr Eisteddfod eleni ddydd Mercher 9 Awst am 1.30 ym Mhabell y Cymdeithasau. Darperir cyfieithu ar y pryd pan fydd Huw Meredydd Owen yn siarad am *Yr Eiliad, Yr Awr a'r Twll yn y To*. Gobeithiwn y bydd Cyfeillion yn cefnogi'r gweithgaredd ymestyn allan yma drwy eu presenoldeb.

(iii) Cynulliad y Cyfarfod Blynyddol: Anogir Cyfeillion o Gymru sy'n mynychu Cynulliad y Cyfarfod Blynyddol ar gampws Prifysgol Warwick i gefnogi darlithydd yr Eisteddfod y llynedd, Gethin Evans. Bydd yn traddodi ei ddarlith ar John Edward Southall yn y Saesneg am 7 y.h. nos Iau 3 Awst (ystafell Oculus 0.03). Dyma gyfle i ddangos presenoldeb gan Gyfeillion yng Nghymru yng Nghynulliad y Cyfarfod Blynyddol ac mewn oes pan fydd llawer o bobl ag ofnau ynglŷn â hunaniaeth a'r mewnfudwr, gyflwyno ymateb un Crynwr. Teitl y fersiwn Saesneg yw *John Edward Southall, forgotten Quaker, adopted Welshman*.

Cylchredir pob cwrdd lleol â'r manylion hyn gan ei annog i gefnogi ein Cyfeillion sy'n siarad yn yr Eisteddfod ac yng Nghynulliad y Cyfarfod Blynyddol.

### **2017.20 Gŵyl y Gelli**

Rydym wedi derbyn adroddiadau gan Peter Hussey a Ros Morley am y digwyddiad hwn lle bu'r Crynwyr yn bresennol am y tro cyntaf. Roedd y ddau Gyfaill yn ystyried mai uchafbwynt eu blwyddyn oedd bod yno. Os bydd y Crynwyr yn parhau â phresenoldeb yn yr Ŵyl, dylem ystyried creu mapiau clir i ddangos lle mae cyfarfodydd i'w cael yng Nghymru a thu hwnt a deunyddiau ynglŷn â beth yw'r Crynwyr. Gallai'r adnoddau a ddarparwyd gennym fod wedi'u harddangos a'u marchnata'n well ac yn y dyfodol dylem gydweithio'n agos â'r trefnwyr, *Quaker Life*, ar adeg sefydlu stondin y Crynwyr. Roedd y digwyddiad a drefnwyd gyda 3 awdur Crynwraidd yn llawn dop ac arweiniodd at lawer o ymholiadau'n cael eu derbyn gan stondin y Crynwyr. Diolchwn i'r holl Gyfeillion hynny a dynnodd at ei gilydd, ar fyr rybudd, i sicrhau bod adnoddau'n cael eu creu a'u darparu, bod gwirfoddolwyr yn ymgynnull ac a wirfoddolodd eu hunain er mwyn cynnig presenoldeb Cyfeillgar yno.

### **2017.21 Y Diweddaraf am y Wefan:**

Mae Jules Montgomery yn adrodd y gofynnwyd i we-ddylunydd roi copi bras i grŵp y we o sut olwg a allai fod ar ein gwefan newydd a sut gellid ei defnyddio, yn seiliedig ar y briff a roddwyd iddo gan y grŵp sydd am i'r wefan bwysleisio ochr ysbrydol Crynwriaeth a bod yn symlach. Bydd yn bosibl newid rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ar bob tudalen a bydd hyn yn helpu dysgwyr.

Cytunwn y bydd y grŵp yn gofyn i'r dylunydd am bris i wneud y gwaith yma; bydd y grŵp yn trafod hyn â'r trysorydd cyn symud ymlaen ymhellach. Diolchwn i Rhian Parry ac Alma Whitton am eu gwaith parhaus â'r dasg yma a chyda'n swyddog gweinyddol.

### **2017.22 Adroddiad gan Gyngor Cynrychioladol Quaker Life:**

Mae Angela Ormrod wedi adrodd am '*Helping Seekers Find Quakers – Being Worth the Finding!*' Mae'r adroddiad yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer ymestyn allan sy'n cynnig posibiliadau pendant ar gyfer cyfarfodydd gweddol fach, gan gynnwys siarad am ein ffydd, ac yn ein hatgoffa bod cymorth a gwybodaeth berthnasol ar gael gan Friends House yn Llundain. Rhaid i ni sicrhau bod gennym ddeunydd da ac addas yn y Gymraeg hefyd. Mae ein niferoedd yn syrthio; mae gennym lawer o rolau i'w llenwi; mae angen i ni fod yn greadigol ynglŷn â sut rydym yn gwneud yr hyn y mae gwir angen ei wneud, rhyddhau'r ysbryd ac mae angen i ni rannu'r baich. Atodir adroddiad Angela i'r Cofnodion hyn.

### **2017.23 Adroddiad am waith Cytûn:**

Rydym wedi derbyn adroddiad llawn a diddorol am waith Cytûn gan Deborah Rowlands, ein cynrychiolydd ar y bwrdd. Dengys sut mae gan Cytûn gysylltiadau cryf â chyrff Eciwmenaid Cristnogol dramor ac mai Cytûn hefyd yw'r fforwm i Eglwysi Cymru ddod at ei gilydd ynghylch materion sydd o ddiddordeb ac yn peri pryder iddynt i gyd. Ar ben hynny, mae ganddo rôl ryng-ffydd bwysig yng Nghymru ac fe'n hatgoffir i wahodd pobl sydd â gwahanol gredoau i gyfranogi o weithredoedd tystiolaeth lleol. Rydym yn cymryd rhan weithredol yn rôl ymestyn allan Cytûn mewn digwyddiadau blynyddol allweddol yng Nghymru megis y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol, ac fe'n cynrychiolir ar ei Rwydwaith Cyfiawnder Hiliol, ei bwyllgorau ar gyfer materion cymdeithasol a swyddogion polisi a'i bwyllgor cyllid.

### **2017.24 Adroddiad y Clerc am Archifau Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru**

Mae Christine Trevett wedi adrodd am golli Archifau Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yr oeddem yn credu iddynt gael eu hadneuo yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar ôl eu hadneuo dros dro yn Archifdy

Sir Ddinbych. Rydym wedi bod yn dilyn hynt y mater hwn dros y 18 mis diwethaf. Roedd Cofnod 2011.07 yn darllen fel a ganlyn:

‘Deunydd wedi’i archifo: Mae hen bapurau wedi’u gadael â’n harchifydd yn Archifdy Sir Ddinbych. Mae’r rhain yn cynnwys gohebiaeth o 1982 ymlaen, ffeiliau sy’n ymwneud a’r Prosiect Lletygarwch Ysbrydol, *Mae’r Gân yn y Galon*, a ffeiliau sy’n gysylltiedig ag adeiladau yng Nghymru a’r Gororau. Mae Jane Brunning, ein harchifydd, wedi rhoi gwybod y dylai’r deunydd yn y pen draw gael ei storio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru a bydd yn trefnu i hyn ddigwydd.’

Ni ellir atgynhyrchu deunydd o’r Pwyllgor gwreiddiol ar gyfer Gwaith y Crynwyr yng Nghymru ac felly mae wedi’i golli’n gyfan gwbl o’r cofnod. Cyhyd ag sy’n bosibl, mae’r deunyddiau ynglŷn â hanes Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru’n cael eu hel at ei gilydd o’r newydd i’w hadneuo. Mae Deborah Rowlands, Jules Montgomery a’r Clerc yn gweithio ar hyn. Dylai unrhyw Gyfeillion sydd â gohebiaeth gynnar berthnasol, deunydd ynglŷn â dyddiau cynharaf Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ac am adeiladau a ffiniau gysylltu â’r clerch neu swyddog gweinyddol y Cyfarfod. Mae ein harchifydd newydd, Alan Clark, wedi’i hysbysu a bydd yn cydweithio â ni ar y mater hwn.

### **2017.25 Gwaith gan y Cyfeillion yng Nghymru:**

Fel rhan o ddysgu am waith sy’n cael ei wneud yng Nghymru neu sy’n cael ei wneud gan Gyfeillion o Gymru, mae David Harries o Gwrdd Pen-y-bont ar Ogwr wedi sôn wrthon ni am y prosiect *Cyfeillion Monze*. Elusen gofrestredig yw hon sydd â’i chartref yng Nghwrdd Pen-y-bont ar Ogwr. Dychwelodd Deana Owen, ymwelydd iechyd, i Zambia – lle bu unwaith yn gweithio – yn ei hymddeoliad i hybu datblygu cymunedol yno. Fel rhan o’r gwaith, mae dwy ysgol wedi’u hadeiladu, dŵr wedi’i gyflenwi, prosiectau addysg baramaethu ac eraill wedi’u sefydlu i sicrhau dulliau cynaliadwy o gynhyrchu incwm. Rheolir prosiectau bach gyda chymunedau a thrwy weithio mewn partneriaeth â grwpiau lleol, yn enwedig gwagedd a phlant. Mae Cyfeillion Pen-y-bont ar Ogwr yn gwasanaethu ar bwyllgor yr elusen ac mae’n derbyn grantiau gan Heddwch a Thystiolaethu Cymdeithasol y Crynwyr (QPSW) a manau eraill a chyllid a godir drwy Gwrdd Pen-y-bont ar Ogwr. Cyfeiriad gwefan yr elusen yw: [www.friendsofmonze.org/](http://www.friendsofmonze.org/). Diolchwn i David Harries am rannu gwybodaeth am y gwaith hwn gyda ni.

### **2017.26 Paratoi i ddynodi 25 mlwyddiant Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru:**

Bydd ein Cyfarfod yn y Drenewydd ym mis Hydref 2017 yn dynodi 25 mlwyddiant Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru. Yn ogystal ag eitemau am y Cyfarfod yn *The Friend* rydym yn bwriadu cael arddangosfa o gyflawniadau a chreadigaethau gan y Cyfarfod yn y gorffennol ynghyd â theisen yn ein cyfarfod ym mis Hydref.

Mae gennym awgrymiadau:

Gwahodd ymwelwyr – o Friends House, o eglwysi eraill a chredoau eraill.

Rhannu bwyd a sgysiau am bwy ydyn ni, beth rydym yn ei gredu a beth rydym yn ei wneud.

Cysylltu â Radio Cymru/Radio Wales/S4C.

Lansio’r wefan yn y cyfarfod.

Mae grŵp bach o bedwar sy’n cynnwys y clerch, y clerch cynorthwyol, Ros Morley a Dafydd Jones wedi’i sefydlu i fynd â’r mater hwn rhagddo ac ar ôl hynny i gysylltu â’r Pwyllgor Trefniadau.

### **2017.27 Cylchoedd Gorchwyl:**

Mae Cylchoedd Gorchwyl wedi’u diweddarau i’r grwpiau canlynol:

Trefniadau; Clerciaeth; Enwebiadau; Adnoddau; Ymddiriedolwyr. Mae’r rhain yn dderbyniol i’r Cyfarfod dros dro ac fe’u dygir eto i’n cyfarfod ym mis Hydref ynghyd â’r Cylchoedd Gorchwyl i’r Grŵp Ffocws. Byddant ar gael ar wefan Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn y man a gall awgrymiadau ar gyfer newidiadau gael eu hanfon at y clerch cyn y Cyfarfod nesaf.

### **2017.28 ‘Gwleidyddiaeth – ble nesa?...**

Mae Jessica Metheringham yn gweithio i Gyfarfod Blynyddol Prydain ym maes ymgysylltiad ac eiriolaeth seneddol. Rydym wedi'i chroesawu fel ein siaradwraig heddiw ar adeg ansicrwydd gwleidyddol mawr ym Mhrydain. Mae wedi disgrifio natur a chwmpas ei gwaith ac wedi rhannu â ni ei meddyliau am gynllunio, h.y. twrio i gwestiynau megis *beth a pham a ble* mewn cysylltiad â hanes rhyw fater penodol a *sut* y gallai newid, gan ystyried ein hiaith a sbarduno emosiwn. Sut rydym yn cyfathrebu â rhywun am ei sefyllfa mewn iaith sy'n ystyrlon iddo/i? Sut rydym yn hybu'r gwirionedd ac uniondeb mewn materion cyhoeddus? Yn ara deg y daw newid. Mae angen i ni benderfynu pwy orau i fynd ato/i. Mae angen i ni ystyried pa bŵer sydd ganddo/i a beth bydd yn ei glywed. Sut rydym yn siarad â'n gilydd a hefyd yn clywed ein gilydd? Mae Jessica wedi ein harwain mewn ymarferiad ysgogol ynglŷn â gwerthoedd. Diolchwn iddi am ymuno â ni heddiw.

### **2017.29 Ymddiriedolwyr a Chyllid:**

Mae Frank Brown, clerc yr Ymddiriedolwyr wedi awgrymu i'r Cyfarfod y dylid penodi trysorydd cynorthwyol i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru. Mae'r Cyfarfod yn cefnogi penodiad o'r fath. Gofynnwn i'n Pwyllgor Enwebiadau ddod ag enw gerbron.

### **2017.30 Trefniadau a gynigiwyd i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ar gyfer 2018:**

Rydym wedi derbyn rhestr o ganolfannau a siaradwyr arfaethedig ar gyfer 2018 i ni eu hystyried. Dogfen ddrafft oedd hon ac edrychwn ymlaen at weld fersiwn wedi'i diweddarau yn ein cyfarfod ym mis Hydref.

### **2017.31 Adnodd Wythnos Heddwch i Ysgolion:**

Mae QPSW wedi cynhyrchu adnodd addysg heddwch sylweddol a gwerthfawr i ysgolion ar ffurf pecyn Wythnos Heddwch a fydd yn cael ei lansio cyn bo hir. Mae rhai tudalennau enghreifftiol wedi cael eu harddangos heddiw. Mae Cyfeillion yng Nghymru sydd wedi gweld yr adnodd hwn a/neu yr ymgynghorwyd â nhw yn ei gylch wedi argymhell i ni y dylai fod ar gael i ysgolion yn y Gymraeg hefyd gan fod bron i draean o blant Cymru yn cael eu haddysg drwy'r Gymraeg. Mae'r Cyfarfod hwn yn cefnogi'r dymuniad y dylai gael ei gyfieithu a bydd y clerc yn anfon y Cofnod hwn ymlaen at Isabel Cartwright o QPSW.

### **2017.32 COFNODION RHWNG CYFARFODYDD**

#### **(i) Newid yn enw Cwrdd:**

Nodwn, yn dilyn Cofnod 17/18 Cyfarfod Ardal Gororau'r De (28 Chwefror 2017), fod enw Cwrdd y Crynwyr Llandrindod a'r Pales i'w gofnodi fel Cwrdd Lleol y Crynwyr Llandrindod. Mae'r Pales yn parhau fel man addoli rheolaidd yn ogystal â chael ei ddynodi'n adnodd ar gyfer y Cyfarfod Ardal ac eraill a all gael budd ohono.

#### **(ii) Defnydd o ddeunydd hawlfraint:**

- (a) Mae clerc Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru wedi derbyn caniatâd ysgrifenedig gan Bronwen Roberts i ddefnyddio, yn ei gryswth neu'n rhannol, ddeunydd yn nhapestri'r Crynwyr yn Nolgellau. Mae hyn ar gyfer ei ddefnyddio yng ngwaith ac wrth greu adnoddau Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ac yn ddarostyngedig bob amser i oruchwyliaeth. Mae'r clerc wedi diolch i Bronwen Roberts drwy lythyr.
- (b) Mae hawlfraint ffotograffau o'r tapestri a'i hanes a dynnwyd gan Jean Napier bellach drwy'i chydsynied ysgrifenedig wedi'i throsglwyddo i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru. Rydym yn ddiolchgar am dderbyn y ddau ganiatâd a hawlfraint hyn a diolchwn i Rhian Parry am ei gwaith i'r perwyl hwn.

### (iii) Adroddiad Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru i'r Cyfarfod Dioddefiadau

Fel a nodwyd yng Nghofnod 2017.09, ysgrifennodd y clerc i fynegi parodrwydd i adrodd yn flynyddol am waith a materion dan ystyriaeth Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru i'r Cyfarfod Dioddefiadau. Cytunir y bydd yr adroddiad cyntaf o'r fath yn cael ei gyflwyno gan glerc Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a Gethin Evans, ein cynrychiolydd i'r cyfarfod hwnnw, ym mis Rhagfyr 2017.

## **2017.33      ENWEBIADAU A PHENODIADAU**

### **Penodiadau rhwng cyfarfodydd**

- Mae'r is-grŵp a benodwyd i gael hyd i enwebai i'r Grŵp Enwebiadau am y cyfnod tair blynedd presennol (Cofnod 2016.31, sef Jeff Beatty a Stevie Kraye) wedi dwyn enw Del Gwynfyd Harris, Cwrdd Aberystwyth gerbron a benodwyd rhwng cyfarfodydd i wasanaethu o 25 Mawrth 2017 hyd at 31 Rhagfyr 2019.
- I gydlynu enwau gwirfoddolwyr ar gyfer Gŵyl y Gelli, 30 Mai 2017: penodwyd Janet Barlow (Cwrdd Lleol Caerdydd).
- Y cynullydd a bennwyd gan y Pwyllgor Trefniadau yw Joyce Gooding sydd wedi'i phenodi.
- I fynychu Te Croeso Undeb Annibynwyr Cymru ddydd Iau 15 Mehefin: Carey Thomas.

### **Penodiadau a geisir**

Mae angen is-grŵp i enwebu Cyfaill i'r Pwyllgor Enwebiadau ar gyfer y tair blynedd nesaf: mae Carolyn Sansom a Stevie Kraye wedi cytuno i ymgymryd â'r dasg yma yn ystod y Cyfarfod ac wedi'u cadarnhau yn y rôl.

Yn ychwanegol:

- Cyd-glerc i wasanaethu'n syth a hyd at 31 Rhagfyr 2019
- Cyd-glerc i wasanaethu o 01.01.2018 hyd at 31.12.2020
- Golygydd i *Calon*
- Ymddiriedolwr i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru i wasanaethu'n syth a hyd at 31.12.2019

Cytunwyd y byddai Gethin Evans, cynrychiolydd Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn y Cyfarfod Dioddefiadau, yn rhywun y byddai'r cyfarfod hwn yn fodlon ei weld fel cynrychiolydd am dair blynedd arall pe bai'r Cyfarfod Dioddefiadau yn ceisio ein barn.

Llofnodwyd \_\_\_\_\_ (Clerc Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru)

Llofnodwyd \_\_\_\_\_ (Clerc Cynorthwyol Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru)

Christine Trevett (clerc)  
[christinetrevett01@gmail.com](mailto:christinetrevett01@gmail.com)  
Ffôn 01443 225732

Catherine James (clerc cynorthwyol dros dro)